Yn creu **Gyrfaoedd** gwell



West Wales Care and Repair
Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

# Pecyn recriwtio **Arweinydd Tîm Gwaith Achos**

**PECYN CYFLOG:**
**Tua £17,000 y flwyddyn ar sail 18.5 awr yr wythnos**
*Gallwch ennill hyd at tua £18,500 ar sail adolygiadau blynyddol o berfformiad.*

**DYDDIAD CAU:**
**Dydd Llun yr 2il o Fehefin 2025 am 09.30**

**CYFWELIADAU:**
**Dydd Mercher 12 Mehefi 2025**

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG

atebgroup.co.uk

ateb

# Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

## Neges gan Nick, Prif Weithredwr ateb

Mae'r ffigurau yn dweud wrthym fod pobl yn ein cymunedau'n byw yn hirach, sy'n golygu bod y cymorth i allu parhau'n annibynnol yn dod yn bwysicach fyth. Rydym yn gwneud llawer o bethau gwych yn Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru, ond yn y bôn mae'r cyfan yn ymwneud â chadw pobl yn ddiogel ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosibl. Gall hynny ddigwydd ar ei ffurf symlaf trwy ddarparu cyngor da a chyfeirio pobl at wasanaethau defnyddiol, neu gall olygu gwneud addasiadau a newidiadau i gartref. Dim ond ar ôl i chi brofi sut beth yw cael anhawster symud o le i le y byddwch yn sylweddoli sut y gall hyd yn oed y gris lleiaf fod yn broblem fawr.

Beth yw'r newyddion da? Wel, drwy ddod yn rhan o'n tîm, gallwch wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yn syth! Rydym yn cael adborth gwych gan ein cwsmeriaid, ac rydym yn rhoi gwasanaeth i lawer ohonynt mewn blwyddyn! Mae ein tîm yn gweithio ledled Ceredigion a Sir Benfro ac yn darparu ystod o wasanaethau, gan greu cysylltiadau'n aml â gwasanaethau iechyd neu fudiadau eraill yn y trydydd sector. Mae ein partneriaid yn cydnabod bod ein gwaith yn gallu bod yn fodd i gadw pobl allan o gyfleusterau iechyd a gofal, a'u helpu i fyw bywyd i'r eithaf yn yr amgylchedd sy'n eu gwneud yn hapus.

Fel Arweinydd Tîm Gweithwyr Achos byddwch yn berson pobl, yn berson trefnus ac yn berson sy'n gallu gweithio'n annibynnol gan arwain a bod yn aelod gweithgar o dîm bach ond cyfeillgar. Mae Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yn rhan o Grŵp ateb sy'n gyflogwr o bwys yn y gorllewin ac sydd ag enw da oherwydd ein DNA a'n ffocws ar gwsmeriaid ac ar ein pobl.

Gyda chefnogaeth gadarnhaol gan ein partneriaid, mae gan Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru gynlluniau i ddatblygu ei wasanaethau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn helpu mwy fyth o bobl. Byddwch yn rhan o'r her hon trwy ddarllen y pecyn yn drwyadl ac anfon eich manylion atom. Hwyrach mai'r swydd hon yw'r union gyfle yr oeddech yn chwilio amdano. Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

**Nick Hampshire**
Prif Weithredwr



# Grŵp ateb

**Mae ein Grŵp yn cynnwys cwmnïau sy'n rhannu'r un diben, sef...**

## Creu atebion gwell o ran byw ar gyfer pobl a chymunedau'r gorllewin

Ein nod yw:

- **Gwella gwasanaeth i gwsmeriaid**
- **Gwasanaethu mwy o bobl**
- **Gwella effeithiolrwydd ein busnes**

Rydym yn canolbwyntio ar:

- **Fforddiadwyedd**
- **Cartrefi Diogel**
- **Buddsoddi mewn Gwasanaethau i Gwsmeriaid**
- **Cydweithio**
- **Lleihau Carbon**

ateb

West Wales Care and Repair
Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

MILL BAY HOMES

**Mae'r Grŵp yn cynnig gwasanaethau amrywiol ar draws y gorllewin yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Caiff rhiant-gwmni'r Grŵp, sef Grŵp ateb Cyfyngedig, ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru. Mae gan y ddau is-gwmni eu Byrddau eu hunain sy'n adrodd i'r rhiant-Fwrdd.**

# Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru = Ni yw ateb

## Mae Gweledigaeth ateb yn dangos i ni "sut beth yw da i ateb". Mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae yn y gwaith o wireddu ein Gweledigaeth.

Mae Gweledigaeth ateb yn cynnwys y canlynol:

**Diben**
Creu atebion gwell o ran byw

**DNA**
Ymddiriedaeth, Cydberthynas a Grymuso


**Cynllunio**

- Gwella gwasanaeth i gwsmeriaid
- Gwasanaethu mwy o bobl
- Gwella effeithiolrwydd ein busnes

**Cyflawni**
Y canlyniadau iawn i gwsmeriaid, mor effeithiol ag y gallwn

**Rhoi sicrwydd**
Deall risgiau; Pennu'r systemau rheoli cywir; Profi bod y systemau rheoli'n gweithio

**Gwella**
Gwella yw ein gwaith o ddydd i ddydd



# Tîm Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

## Rhan o Gyfarwyddiaeth Cwsmeriaid Grŵp ateb

### Cwmpas

**Mae'r Gyfarwyddiaeth Cwsmeriaid yn cynnwys 13 o dimau cyflawni:**

- Gwasanaethau i gwsmeriaid - Gosod eiddo, Casglu incwm, Cyngor a chymorth i gwsmeriaid, Ymgysylltu â chwsmeriaid, Datblygu cymunedol, Cynorthwyo tenantiaethau a Byw'n annibynnol
- Gwasanaethau eiddo – Cynnal a chadw, Cydymffurfio, Mannau cyffredin, Rheoli asedau strategol, Gwaith cynnal a chadw arfaethedig a Gwaith mawr
- yn ogystal â'n his-gwmni, Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru, sy'n cynorthwyo pobl hŷn ar draws Sir Benfro a Cheredigion i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

### Tîm

Mae 112 o swyddi parhaol yn y gyfarwyddiaeth. Blaenoriaeth y tîm yw cyflawni'r canlyniadau gorau posibl o ran gwasanaeth i'n cwsmeriaid sydd naill ai'n byw yn un o gartrefi ateb neu sy'n cael gwasanaeth gan Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru.

### Cefndir

Ffeithiau a Ffigurau Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru:

- 756 o Archwiliadau Cartref Iach wedi'u cwblhau yn ystod y 12 mis diwethaf.
- 1,730 o gwsmeriaid wedi cael cymorth i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain, drwy osod cymhorthion ac addasiadau, yn ystod y 12 mis diwethaf.
- 100% o gwsmeriaid yn fodlon â'r gwasanaeth a gawsant.

### Y dyfodol

Rydym yn darparu gwasanaeth gwych i'n cwsmeriaid, ond rydym yn gwybod fel tîm bod mwy y gallwn ei wneud i wella. Ymhlith rhai o'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol y mae:

- Buddsoddi yn natblygiad ein tîm er mwyn diwallu anghenion ein cwsmeriaid yn y dyfodol.
- Archwilio hyfywedd cynigion newydd ynghylch gwasanaethau, a darparu mwy o wasanaethau i fwy o bobl.
- Archwilio opsiynau ar gyfer gwella gwaith ymgysylltu â'n cwsmeriaid i ddeall eu holl anghenion, er mwyn eu helpu i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

# Eich swydd yn Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

**Teitl eich swydd fydd:**
**Arweinydd Tîm Gweithwyr Achos**

**Byddwch yn gweithio yn y tîm canlynol:**
**Tîm Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru**

## Byddwch yn canolbwyntio ar y meysydd gwasanaeth canlynol:

- **Cyngor a chymorth i gwsmeriaid**

- Galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi.

- **Ymateb brys**

- Atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty/i leoliad gofal, neu gael pobl allan o'r ysbyty/o leoliad gofal ac yn ôl gartref erbyn dyddiad rhyddhau a gytunwyd.

- **Addasiadau**

- Galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

## Ambell air gan y tîm presennol:

### Jayne fydd eich rheolwr uniongyrchol...

Helô. Rydym yn ehangu ein tîm gwaith achos ar draws Sir Benfro a Cheredigion ac yn chwilio am unigolyn brwdfrydig sy'n llawn cymhelliant ac sydd â sgiliau arwain gwych i rannu swydd ag Arweinydd presennol ein Tîm Gweithwyr Achos. Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn unigolyn sy'n deall anghenion pobl hŷn, sy'n gallu cydymdeimlo ag anghenion pobl hŷn ac a fydd yn ymroi i ddarparu gwasanaeth gwaith achos o safon i bobl hŷn.

### Mark fydd arweinydd eich cyfarwyddiaeth...

Mae Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yn rhan werthfawr o Gyfarwyddiaeth Cwsmeriaid ateb, ac mae'n cynorthwyo pobl hŷn yn Sir Benfro a Cheredigion i barhau i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol gartref. Rydym yn falch o fod yn ehangu'r gwasanaeth gwaith achos drwy gyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn ateb y galw am gyngor a chymorth gan gwsmeriaid hŷn yn y gorllewin.

## Gwella Cartrefi, Newid Bywydau

Mae rhagor o fanylion i'w cael yn y proffil rôl sydd ynghlwm..

# Eich swydd yn Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

## Dyma ychydig o ddyletswyddau allweddol y swydd. Mae mwy ohonynt wedi'u nodi yn y proffil rôl.

- Arwain a datblygu'r tîm gweithwyr achos, gan fonitro perfformiad i sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion cwsmeriaid ac yn bodloni gofynion o ran cyllid.
- Arwain y tîm o ran cynnal asesiadau o anghenion cwsmeriaid, a arweinir gan eu hanghenion nhw ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a rhoi atebion ar waith i alluogi ein cwsmeriaid i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl yn eu cartrefi eu hunain.
- Rheoli eich llwyth eich hun o achosion cleientiaid er mwyn darparu ystod o gyngor a chymorth i gwsmeriaid, a fydd yn cynnwys addasiadau i'r cartref, gwaith atgyweirio a gwelliannau, cyngor am fudd-daliadau, sicrhau cymaint o incwm ag sy'n bosibl a chyfeirio pobl at asiantaethau eraill.
- Monitro ac adolygu data perthnasol am berfformiad er mwyn gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid yn barhaus a sicrhau bod y canlyniadau gofynnol yn cael eu cyflawni.
- Datblygu gweithdrefnau a phrosesau perthnasol a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu arferion gweithio cyfredol.
- Cynnal y Llawlyfr Ansawdd sy'n ymwneud â'r Safon Ansawdd Cyngor, cwblhau adolygiadau o ffeiliau a sicrhau bod y gwasanaeth gwaith achos yn gweithredu'n unol â'r safonau.
- Datblygu a chynnal cydberthnasau gwaith cadarnhaol ag asiantaethau partner, gan gynnwys cydweithwyr ym maes iechyd, awdurdodau lleol a mudiadau eraill yn y trydydd sector.
- Cynrychioli Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru mewn digwyddiadau allanol a rhoi cyflwyniadau/anerchiadau am waith yr asiantaeth, gan hyrwyddo ein gwasanaethau.
- Dangos tosturi a chydymdeimlad tuag at anghenion pobl hŷn, gan sicrhau bod ein gwasanaethau'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid.

- **Gwella gwasanaeth i gwsmeriaid**
- **Gwasanaethu mwy o bobl**
- **Gwella effeithiolrwydd ein busnes**

# Fframwaith dyfarniadau cyflog ateb (reward @ateb)

| Cyflog<br>**Tua £17,100** | **Tua £17,100 y flwyddyn**<br>Mae'r cyflog yn seiliedig ar 18.5 awr yr wythnos – dydd Mercher (prynhawn), dydd Iau a dydd Gwener. Gweler y nodiadau isod am ein fframwaith newydd, sef reward @ateb. |
|---|---|

## Fframwaith dyfarniadau cyflog

Yn ddiweddar rydym wedi cyflwyno ein fframwaith dyfarniadau cyflog newydd, sef reward @ateb, sy'n cynnwys y canlynol:

| | |
|---|---|
| Tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad<br>**Hyd at £1,300** | Bydd pob swydd yn perthyn i fand cyflog lle bydd gennych y posibilrwydd bob blwyddyn o gynyddu eich cyflog sylfaenol blynyddol ac ennill dyfarniadau cyflog anghyfunol ychwanegol 'yn ystod y flwyddyn' os yw eich perfformiad wedi rhagori ar ein disgwyliadau.<br><br>**Craidd** – Cyfle i gynyddu eich cyflog ar gyfer y flwyddyn nesaf hyd at tua £850 cyn bod adolygiad costau byw yn cael ei ddefnyddio<br>**Craidd+** – Cyfle i gael taliad anghyfunol gwerth hyd at tua 3% yn ystod y flwyddyn gyfredol. |
| Dyfarniadau Encore<br>**Hyd at £500** | Gall pob aelod o'r tîm gael dyfarniadau cyflog, ar ffurf cyfandaliadau ar y pryd, bob blwyddyn er mwyn cydnabod unrhyw gamau gweithredu y maent wedi'u cymryd i hybu ein Gweledigaeth.<br><br>**Encore** - Gall unrhyw aelod unigol o'r tîm gael dyfarniadau gwerth hyd at £500 yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol. |
| Dyfarniadau strategol<br>**Amrywiol** | Mae gan ein Byrddau y gallu ychwanegol i wobrwyo eu cwmnïau os oes perfformiad strategol neu gerrig milltir penodol wedi'u cyflawni.<br><br>**Dyfarniadau strategol –** nid ydynt yn seiliedig ar amser, a gall y Byrddau ystyried dyfarniadau strategol ychwanegol ar gyfer ystod o wahanol amgylchiadau sy'n ymwneud ag amodau gweithredu, perfformiad neu gyflawni cerrig milltir allweddol, ac ati. |

## Dim ond rhan o'r fargen yw cydnabyddiaeth ariannol. Edrychwch ar y manteision eraill sydd i'w cael o fod yn rhan o dîm ateb...

# Y buddion yn @ateb

## Rydym yn cynnig rhai buddion gwych i ddeiliad y swydd hon, o drefniadau gweithio hyblyg i wyliau hael, pensiwn cystadleuol, yswiriant bywyd a chynlluniau iechyd. Felly, beth amdani...

| | |
|---|---|
| Gwyliau blynyddol: **30 diwrnod** Pro Rata | Mae ein blwyddyn gwyliau blynyddol yn mynd o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr a rhoddir 30 diwrnod o wyliau'r flwyddyn ar gyfer swyddi llawn-amser. Cyfrifir gwyliau ar sail pro rata ar gyfer trefniadau gweithio'n rhan-amser. Fel rheol, bydd y Grŵp yn cau'r swyddfa am 3 diwrnod yn ystod cyfnod gwyliau banc y gaeaf a bydd y diwrnodau hynny'n ychwanegol at eich lwfans gwyliau blynyddol. Byddwch yn gallu cymryd eich gwyliau fesul awr er mwyn gwella ymhellach eich hyblygrwydd o ran bywyd/gwaith. |
| **Cynllun pensiwn cyfrannol: Tua £1,700** | Byddwch yn cael eich cofrestru'n awtomatig yn ein Cynllun Pensiwn Cyfraniadau Diffiniedig, sef y Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol (SHPS), yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i gyflogwyr, a byddwn yn cyfrannu'r un arian â chi hyd at uchafswm o 10%. |
| Simply Health*: **Dros £1,000** | Gwerth dros £1,000 o fuddion blynyddol o ran iechyd, o dreuliau deintyddol a threuliau ysbyty i wasanaethau meddyg teulu a gwasanaethau cwnsela ar-lein. |
| **Yswiriant bywyd*: Tua £51,000** | Mae'n gysylltiedig â'n haelodaeth o gynllun pensiwn – gallwch gael yswiriant bywyd ar gyfer eich teulu, sydd deirgwaith yn fwy na'ch cyflog. |
| **Hawl i dâl salwch: Cyflog llawn am 3 mis a hanner cyflog am 3 mis** | Tri mis o gyflog llawn a thri mis o hanner cyflog (ar ôl 6 mis o wasanaeth). Gellir ymestyn y cyfnod os ydych i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch difrifol tymor hwy fel y diffinnir gan Safonau Gofynnol Cymdeithas Yswirwyr Prydain ar gyfer Yswiriant Salwch Difrifol. |
| **Diwrnodau i gefnogi ein hachosion da: 2** | Fel Grŵp, rydym yn ceisio cefnogi achosion da bob blwyddyn. Byddwn yn eich cynorthwyo i roi eich amser o'ch gwirfodd i helpu'r achosion da a ddewiswyd gennym. |
| Dysgu a datblygu | Mae'r Grŵp yn buddsoddi mewn ystod eang o weithgareddau dysgu a datblygu er mwyn eich cynorthwyo i gyflawni eich swydd yn well a datblygu eich sgiliau eich hun. |
| Tanysgrifiadau proffesiynol | Byddwn yn talu un o'ch tanysgrifiadau aelodaeth proffesiynol blynyddol, os yw'n gysylltiedig â'ch swydd. |
| Trust Clock – trefniadau gweithio hyblyg | Amgylchedd gweithio hyblyg o ran amser a lleoliad. Dim ond i chi fodloni ein hegwyddor arweiniol, rydym yn hyblyg ynghylch sut a ble y byddwch yn cyflawni canlyniadau gwych i gwsmeriaid. |

*Bydd angen eich bod wedi cyflawni cyfnod gofynnol o wasanaeth cyn y gallwch gael rhai buddion.

# Y buddion yn ateb (parhad)

| | |
|---|---|
| Milltiroedd busnes a defnydd o gar | Mae gennym wahanol gyfraddau ar gyfer ad-dalu milltiroedd, yn dibynnu ar y gofynion teithio sy'n perthyn i'ch swydd. Caiff defnyddiwr car achlysurol ad-daliad am bob milltir a deithir, a chaiff defnyddiwr car hanfodol lwfans blynyddol ar ffurf cyfandaliad yn ogystal ag ad-daliad am bob milltir a deithir, yn unol â chanllawiau Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. |
| Absenoldeb arbennig | Rydym yn gwybod bod ar bawb angen cymorth y tu allan i'r gwaith weithiau, felly mae gennym ddull hollol hyblyg o drefnu absenoldeb arbennig sydd wedi'i deilwra i'ch amgylchiadau. |
| Buddion ychwanegol o ran iechyd | Rydym yn cynnig brechiadau blynyddol rhag y ffliw ac yn cyfrannu at gost profion llygaid a chost sbectol ar gyfer y sawl sy'n defnyddio cyfarpar sgrin arddangos. |
| Cymorth blynyddol o ran iechyd meddwl | Mae ein cynllun cwnsela'n cynnig hyd at chwech o sesiynau cwnsela ac, os oes angen, gallwn drefnu cymorth ychwanegol drwy ein gwasanaeth iechyd galwedigaethol a gadwyd. |
| Tîm ateb | Fel aelod o'r tîm, gallwch fwynhau ystod o weithgareddau'n ymwneud â lles a digwyddiadau tîm a mynychu ein Fforwm Tîm. |

## Ein hegwyddor arweiniol ar gyfer gweithio yn ateb...

**"Rhaid bob amser i ni roi'r cwsmer, y busnes, y tîm ac iechyd a diogelwch yn gyntaf wrth gynllunio a chyflawni cyfrifoldebau ein proffil rôl a chanlyniadau meysydd gwasanaeth"**

# Sut mae ymgeisio

## Does dim byd i'w ofni, felly. Os ydych am wneud gwahaniaeth trwy greu atebion gwell o ran byw i bobl a chymunedau'r gorllewin, dyma'r lle i chi.

**Dyma sut mae mynd ati i ddangos mai chi yw'r person gorau ar gyfer y swydd hon...**

### CAM 1 | YN AWR!

Ewch i'n gwefannau i weld pwy ydym ni a beth yr ydym yn ei wneud.
www.atebgroup.co.uk
www.careandrepair.org.uk/agencies/care-repair-west-wales/

### CAM 2 | YMGEISIWCH CYN - Dydd Llun 2 Mehefin 2025 (9.30am)

Wedi i chi ddarllen y dogfennau ac os ydych yn credu mai dyma'r swydd i chi, gwasgwch y botwm 'ymgeisio'. Cadwch y wybodaeth wrth law, oherwydd bydd arnoch ei hangen i ysgrifennu cais gwych. Yng Ngrŵp ateb, rydym am gael gwybod beth yw eich sgiliau a'ch profiad a sut y maent yn berthnasol i'r swydd, felly peidiwch â bod yn swil. Pan fyddwch yn fodlon â'ch cais, gwasgwch 'anfon' ac arhoswch am wybodaeth bellach.

Os oes gennych ymholiad, cysylltwch â ni drwy anfon ebost i **peopleteam@atebgroup.co.uk**

### CAM 3 | BYDDWN YN EICH HYSBYSU CYN GYNTED AG SY'N BOSIBL

Ar ôl y dyddiad cau, byddwn mewn cysylltiad i roi gwybod i chi a ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Byddwn yn cysylltu â phob ymgeisydd trwy ebost, felly cofiwch wirio eich blwch negeseuon – ac os na fyddwch wedi clywed gennym, cofiwch edrych yn eich blwch negeseuon sothach. Byddwn yn cysylltu â chi'n ddi-ffael.

### CAM 4 | CYFWELIAD - Dydd Mawrth 10 Mehefin

Mae'r cyfweliad yn gyfle i ni gael gwybod mwy amdanoch chi ac yn gyfle i chi ofyn unrhyw gwestiynau pwysig a allai fod gennych – peidiwch â phoeni, rydym yn gyfeillgar iawn! Bydd cyfle hefyd i chi gael sgwrs dros baned â rhai o'r bobl a fydd yn yr un tîm â chi.

**Pob lwc**

# Datganiad Amrywiaeth

**Mae Grŵp ateb wedi ymrwymo'n llwyr o hyd i egwyddorion arfer anwahaniaethol a chyfle cyfartal ar draws pob agwedd ar y sefydliad, ein his-gwmnïau a'r cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt.**

Yn rhan o'n hymrwymiad i wella amrywiaeth a chynrychiolaeth yn ein Grŵp, hoffem annog ymgeiswyr o bob grŵp nodwedd warchodedig yn ogystal â'r sawl sydd â phrofiad go iawn o anabledd i ystyried ymuno â'n Bwrdd. Mae eich safbwyntiau a'ch profiadau unigryw yn amhrisiadwy o safbwynt helpu i hybu ein Gweledigaeth.

Rydym yn falch o fod wedi ymrwymo i addewid 'Gwneud Nid Dweud' Tai Pawb ac o fod wedi ymrwymo i fod yn Hyderus o ran Anabledd. Os ydych o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol neu os oes gennych anabledd, ac os ydych yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl, rydym yn gwarantu y byddwch yn cael cyfweliad.

Os hoffech ddarllen mwy am ein Polisi Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth, ewch i'n gwefan.

Yn creu
**Gyrfaoedd**
gwell